
Polisi a Phroses Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data

Cynnwys

1. Diben	3
2. Cwmpas.....	4
3. Diffiniadau	4
4. Rolau a chyfrifoldebau.....	5
5. Buddion Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data	6
6. Y broses Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data.....	7
7. Cwestiynau ynglŷn â'r broses	9
8. Monitro ac adolygu.....	10
9. Atodiad A: Nodi'r angen am Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data	11
10. Atodiad B: Disgrifio'r broses a mapio'r llifoedd gwybodaeth	13
11. Atodiad C: Ystyried ymgynghoriad a nodi risgiau	15
12. Atodiad D: Cymeradwyo a chofnodi canlyniadau	18

1. Diben

- 1.1. Mae'r polisi hwn yn rhan o fframwaith llywodraethu gwybodaeth Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (yr Ombwdsmon).
- 1.2. Mae Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data (DPIA) yn elfen allweddol o ddiogelu data yn ôl dyluniad ac yn ddiofyn.¹ Mae'r broses yn helpu i ddadansoddi, nodi a lleihau risgiau diogelu data prosiect ac mae'n dangos cydymffurfiaeth â'n rhwymedigaethau diogelu data. Mae'r polisi a'r broses hon yn nodi'r camau sy'n gysylltiedig â hyn.
- 1.3. Mae'n ofyniad o dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) i gynnal Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data (DPIA) ar gyfer unrhyw brosesu sy'n debygol o arwain at risg uchel i fuddiannau unigolion. Os, ar ôl cynnal DPIA, y bydd y risg yn parhau i fod yn uchel ac na ellir lliniaru'r risg, yna mae'n rhaid ymgynghori â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth cyn dechrau ar y broses.
- 1.4. Gyda chymaint o wybodaeth yn cael ei chasglu, ei defnyddio a'i rhannu, mae'n bwysig bod camau'n cael eu cymryd i ddiogelu preifatrwydd pob unigolyn a sicrhau bod gwybodaeth bersonol yn cael ei thrin yn gyfreithlon, yn ddiogel, effeithlon ac effeithiol.
- 1.5. Bydd cwblhau DPIA yn ein cynorthwyo i nodi a lleihau ein risgiau preifatrwydd i gydymffurfio â'n rhwymedigaethau diogelu data a chyflawni disgwyliadau preifatrwydd unigolion.

¹ [Canllawiau Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data ICO](#)

2. Cwmpas

- 2.1. Mae'r polisi hwn yn berthnasol i unrhyw fenter sy'n ystyried newid, er enghraifft polisi, proses, gweithdrefn, prosiect, system TG neu weithgarwch caffael newydd. Mae'n darparu proses a fydd yn galluogi:
- I nodi'r angen i gwblhau DPIA drwy gyfres o gwestiynau sgrinio,
 - i wybodaeth ddigonol gael ei chasglu am fenter i gwblhau DPIA a
 - i risgiau preifatrwydd sy'n cael eu nodi gan y DPIA gael eu dogfennu a'u hystyried.
- 2.2. Dylid dilyn y broses o ddechrau menter er mwn sicrhau bod problemau posibl yn cael eu nodi ar gam cynnar, pan fydd yn fwy syml mynd i'r afael â hwy ac yn llai costus a bydd yn bosibl dylanwadu ar gyfeiriad y gwaith.
- 2.3. Er bod y polisi hwn wedi'i anelu at fentrau newydd, efallai y bydd perchnogion asedau gwybodaeth yn dymuno ei ddefnyddio fel offer i adolygu trefniadau presennol ar gyfer nodi a mynd i'r afael â risgiau preifatrwydd fel gweithgarwch gwelliannau parhaus.

3. Diffiniadau

- 3.1. **Menter** – unrhyw gynnig sy'n ystyried newid, er enghraifft polisi, proses, gweithdrefn, prosiect, system TG neu weithgarwch caffael newydd.
- 3.2. **Preifatrwydd** – yn ei ystyr ehangaf, hawl unigolyn i fod yn rhydd rhag ymyrraeth.
- 3.3. **Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data (DPIA)** – proses sy'n ein cynorthwyo i nodi, lleihau a mynd i'r afael â'r risgiau preifatrwydd sy'n gysylltiedig ag unrhyw fenter newydd.

- 3.4. **Ased Gwybodaeth** – corff o wybodaeth sydd wedi'i ddiffinio a'i reoli fel un uned unigol er mwyn gallu ei ddeall, rhannu, diogelu a'i ddefnyddio'n effeithlon. Mae ganddynt werth, risg, cynnwys a chylch oes adnabyddadwy a hylaw.²
- 3.5. **Data personol** – gwybodaeth sy'n ein galluogi i adnabod unigolyn, naill ai o'r wybodaeth a ddarparwyd neu o'i hychwanegu at wybodaeth arall a allai fod ar gael. Gallai data personol hefyd gynnwys categorïau arbennig o ddata personol sy'n cael eu hystyried yn fwy sensitif y bydd ond yn bosibl eu prosesu mewn amgylchiadau mwy cyfyngedig.

4. Rolau a chyfrifoldebau

- 4.1. Y **Tîm Rheoli** sy'n bennaf gyfrifol am gyfeiriad a llywodraethiant strategol yr Ombwdsmon a bod rheolaeth weithredol yn cydymffurfio â phob gofyniad cyfreithiol, statudol a chanllawiau arfer da.
- 4.2. Yr **Uwch Berchennog Risgiau Gwybodaeth** (SIRO) yn atebol i'r Tîm Rheoli am sicrhau bod y cynllun sicrhau diogelwch gwybodaeth a rheoli risg yn cael ei weithredu a'i adolygu a'i fonitro'n effeithiol. Mae'r DPIA yn un elfen o'r broses o reoli risgiau gwybodaeth. Mae angen mynd i'r afael â risgiau gwybodaeth mewn ffordd debyg i risgiau mawr eraill, er enghraifft risgiau ariannol, cyfreithiol a risg i enw da.
- 4.3. **Perchnogion Asedau Gwybodaeth** (IAO) a **Chynorthwyywr Asedau Gwybodaeth** (IAA) sy'n gyfrifol am asedau gwybodaeth penodol electronig neu bapur (mae'r enwau wedi'u nodi ar y [Gofrestr Asedau Gwybodaeth](#)). Hwyl yw'r pwynt cyswllt cyntaf ar gyfer cwblhau DPIA.

² [Taflen Ased Gwybodaeth](#), Yr Archifau Cenedlaethol, 2017

Maent hefyd yn gyfrifol am gymeradwyo datrysiadau preifatrwydd a chofnodi risgiau perthnasol yn y gofrestr risg briodol. Gall y Perchennog Asedau Gwybodaeth ddirprwyo cyfrifoldeb dros hyn i'r Cynorthwydd Asedau Gwybodaeth.

- 4.4. Y **Rheolwr Llywodraethu Gwybodaeth** (IGM) sy'n gyfrifol am fonitro cydymffurfiaeth fewnol â Deddf Diogelu Data 2018 a'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data mewn cysylltiad ag unrhyw ddata personol sy'n cael ei brosesu gan yr Ombwdsmon. Mae hyn yn cynnwys y trefniadau sydd eu hangen ar gyfer cyfathrebu a hyfforddiant yn ogystal â threfnu i fonitro'r polisi. Gall yr IGM ddarparu cyngor ar gynnal DPIA.
- 4.5. Mae'n rhaid i **bob aelod o staff** ddilyn gofynion hyn a pholisïau llywodraethu gwybodaeth perthnasol. Dylid cymryd gofal arbennig o effaith gweithio gyda chontractwyr ar breifatrwydd.

5. Buddion Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data

- 5.1. Er nad yw cwblhau Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data (DPIA) yn ofyniad cyfreithlon, gallai'r ICO holi sefydliad a ydynt wedi cynnal DPIA. Mae'n ffordd effeithiol o ddangos sut mae'r dulliau prosesu data personol yn cydymffurfio â deddfwriaeth diogelu data.
- 5.2. Gallwn gynyddu hyder y cyhoedd a chyflogeion yn y ffordd y byddwn yn defnyddio eu gwybodaeth. Dylai menter sydd wedi bod yn destun DPIA greu llai o ymyrraeth preifatrwydd ac felly bydd yn llai tebygol o gael effaith negyddol ar unigolion.
- 5.3. Bydd DPIA yn arddangos tryloywder a gallai ei gwneud yn haws esbonio i unigolion pam fod eu gwybodaeth yn cael ei defnyddio.
- 5.4. Bydd yn cefnogi ein rhwymedigaethau cyfreithiol o dan y ddeddfwriaeth diogelu data.

Polisi a Phroses Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data

- 5.5. Bydd cwblhau DPIA yn ystod camau cynnar menter yn sicrhau bod materion preifatrwydd yn cael eu nodi'n gynnar. Yn bwysicaf oll, ni fydd datrysiadau amhriodol yn cael eu gweithredu y bydd yn rhaid eu gwyrddroi yn ddiweddarach, a allai fod yn gostus.
- 5.6. Dylai cynnal DPIA fod yn fuddiol i'r Ombwdsmon o ganlyniad i bolisiâu a systemau gwell yn cael eu cynhyrchu a gwella perthnasoedd gydag unigolion.

6. Y broses Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data

- 6.1. Mae'r broses DPIA yn hyblyg. Mae yna saith cam i'r broses a nodir trosolwg o'r rhain isod.
- 6.2. Dylid pennu'r amser a'r adnoddau sydd eu hangen ar gyfer DPIA i gyd-fynd â natur y fenter.

1

Nodi'r angen am DPIA. Defnyddiwch y [cwestiynau sgrinio](#) yn atodiad A, i benderfynu a oes angen i chi gwblhau DPIA.

2

Disgrifiwch y llifocedd prosesu a gwybodaeth. Defnyddiwch y [ffurflen a'r offer siart llif](#) yn atodiad B i fapio'r llif gwybodaeth o'r dechrau i'r diwedd. Esboniwch beth yw'r fenter, darparwch y cyd-destun. Data pwy sy'n cael ei gasglu a pha ddata yw hyn (personol / categorïau arbennig o ddata personol)? Pam fod angen y data arnoch a gyda phwy y byddwch yn ei rannu? Esboniwch y sail gyfreithiol dros brosesu. Am ba hyd y caiff ei gadw?

3

Ystyried ymgynghori. Er mwyn ystyried a oes angen prosesu ac a yw'n gymesur, bydd yn [rhaid i chi ymgynghori](#) â rhanddeiliaid mewnol ac allanol allweddol perthnasol. Dylech gydweithio i [ystyried y risgiau](#) (efallai y byddant yn nodi rhai nad ydych chi wedi'u nodi) a mesurau lliniaru. Allwch chi gyflawni'r un canlyniad yn y ffordd leiaf ymwithiol bosibl. Sut fyddwch chi'n sicrhau ansawdd data a lleihau data? Pa wybodaeth fyddwch chi'n ei rhoi i unigolion? Sut fydddech chi'n sicrhau bod eu hawliau gwybodaeth yn cael eu cefnogi? Pa fesurau fyddwch chi'n eu cymryd i sicrhau bod proseswyr yn cydymffurfio? Pa gamau y mae angen i chi eu cymryd i gytuno ar y cyd â rheolwyr data eraill? A fydd unrhyw ddata yn gadael y DU, os felly, sut fyddwch chi'n sicrhau bod trosglwyddiadau rhyngwladol yn cael eu diogelu?

4

Nodi'r risgiau preifatrwydd a'r risgiau cysylltiedig. Ar y siart llif [nodwch y problemau preifatrwydd a phroblemau posibl eraill](#) yn y broses. Er enghraifft, bydd rhai risgiau i unigolion o ran cywirdeb neu ddiogelwch y data ac unrhyw ymyrraeth ddiangen ar eu preifatrwydd. Efallai y bydd risgiau i'r sefydliad hefyd, er enghraifft cydsyniad cyfreithiol, risgiau ariannol neu risgiau i enw da. Rhestrwch y risgiau hyn yng ngholofn gyntaf [yr asesiad risg](#).

5

Nodi a gwerthuso datrysiadau ar gyfer rheoli risg. Defnyddiwch yr [asesiad risg](#) i ddadansoddi'r canlyniad neu fudd y risg. Esboniwch sut y gallech fynd i'r afael â phob risg. Dylech asesu a fyddai'r cam gweithredu hwn yn diddymu neu'n lleihau'r risg. Efallai y bydd angen i ni dderbyn rhyw lefel o risg. A oes unrhyw gamau ychwanegol i'w cymryd megis ystyried unrhyw gamau eraill i leihau'r risg ymhellach?

6

Cymeradwyo ac integreiddio'r canlyniadau mewn cynllun.

Defnyddiwch y [ddalen gymeradwyo](#) i gofnodi'r broses o wneud penderfyniadau. Mae'n rhaid i Berchennog yr Asedau Gwybodaeth gymeradwyo'r DPIA. Efallai y bydd angen diweddarau'r gofrestr risg hefyd. Defnyddiwch y cynllun gweithredu i fonitro cynnydd o ran unrhyw gamau sy'n deillio o'r asesiad risg. Efallai y bydd hyn yn bwydo'n uniongyrchol i ddogfennaeth y prosiect.

7

Adolygu'n rheolaidd. Bydd angen i chi adolygu'r DPIA a'i ailadrodd os bydd newid sylweddol i natur, cwrpas, cyd-destun neu ddibenion y prosesu.

7. Cwestiynau ynglŷn â'r broses

7.1. **Pryd fyddwn i'n ystyried yr angen am DPIA?**

Dylai DPIA ddechrau yn gynnar yn oes menter a dylid parhau i'w ystyried drwy'r broses o'i gweithredu. Mae'n bwysig ystyried DPIA (gan ddechrau gyda'r [cwestiynau sgrinio](#)) ar gyfer unrhyw fenter newydd neu pan fydd newid arfaethedig i broses neu system bresennol ac yn y blaen. Mae newid i unrhyw broses neu system hefyd yn cynnwys rhoi'r gorau i unrhyw weithgarwch neu drefniant. Er enghraifft, pan fydd contract yn dod i ben, er mwyn ystyried trefniadau i waredu neu drosglwyddo unrhyw ddata yn ddiogel. Ar gyfer gweithgarwch caffael, dylid cwblhau'r DPIA cyn tendro er mwyn sicrhau bod yr holl risgiau preifatrwydd perthnasol yn cael eu hystyried wrth baratoi manylebau tendrau.

7.2. **Pwy ddylai gynnal y DPIA?**

Arweinydd y fenter sy'n gyfrifol am nodi'r angen am DPIA a'i gwblhau.

7.3. Sut wyf yn gwybod a oes angen DPIA ai peidio?

Mae hyn yn dechrau gyda chyfres o [gwestiynau sgrinio](#). Os byddwch yn ateb 'bydd' i unrhyw rai o'r cwestiynau, yna bydd angen cwblhau'r DPIA llawn.

7.4. Beth wyf yn ei wneud gyda'r cwestiynau sgrinio a/neu'r DPIA ar ôl eu cwblhau?

Dylid anfon y rhain at y Rheolwr Llywodraethu Gwybodaeth a fydd yn eu storio yn y [gofrestr asedau gwybodaeth](#) er mwyn gallu cyfeirio atynt yn y dyfodol.

Er nad yw'n ofyniad i gyhoeddi DPIA wedi'u cwblhau i'n gwefan, mae'r ICO yn argymhell hynny er mwyn creu tryloywder. Bydd angen ystyried cyhoeddi ar sail achosion unigol, gan sicrhau na fydd unrhyw wybodaeth sensitif yn cael ei datgelu. Y Perchennog Asedau Gwybodaeth ddylai wneud y penderfyniad i gyhoeddi, mewn cydweithrediad â'r Rheolwr Llywodraethu Gwybodaeth a SIRO.

7.5. Pam fod angen i mi ddisgrifio'r llif gwybodaeth?

Mae deall y llifoedd gwybodaeth perthnasol yn hollbwysig ar gyfer asesiad priodol o risgiau preifatrwydd. Weithiau rydym yn canolbwyntio ar un agwedd yn hytrach nac ystyried y broses mewn ffordd holistaidd. Gallwch ddefnyddio'r offer yn atodiad B(b) i'ch helpu i [fapio'r llifoedd gwybodaeth](#) a'r broses o'i dechrau i'w diwedd.

8. Monitro ac adolygu

- 8.1. Bydd effeithiolrwydd y polisi hwn yn cael ei fonitro gan y Rheolwr Llywodraethu Gwybodaeth gydag adroddiadau'n cael eu cyflwyno yn ôl yr angen i SIRO a'r Tîm Rheoli. Bydd y polisi'n cael ei adolygu bob dwy flynedd.

9. Atodiad A: Nodi'r angen am Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data

Bydd y ffurflen hon yn eich helpu i nodi a oes angen DPIA. Bydd ateb 'ie' i unrhyw un o'r cwestiynau sgrinio isod yn golygu y bydd angen cwblhau DPIA. Darparwch fanylion yn y golofn 'Sylwadau' yn y tabl isod. Gallwch ehangu ar yr atebion wrth i waith fynd rhagddo. Os byddwch yn ateb 'ie' i unrhyw rai o'r cwestiynau, bydd angen i chi gwblhau'r wybodaeth y gofynnir amdani yn Atodiad B. Os byddwch yn ateb 'na' i bob un o'r cwestiynau, efallai y bydd yr offer yn yr atodiadau hyn yn parhau i fod o ddefnydd i chi ar gyfer nodi a rheoli risgiau sefydliadol posibl prosiect.

Mae cyngor a chymorth ar gael gan y Rheolwr Llywodraethu Gwybodaeth a dylid trosglwyddo ffurflenni wedi'u cwblhau atynt i'w llwytho i'r gronfa ddata asedau gwybodaeth. Dylech ymgynghori â'r Perchennog/Cynorthwydd Asedau Gwybodaeth yn ystod y broses hon. Bydd angen iddynt gymeradwyo'r cwestiynau sgrinio neu'r DPIA.

Y prosiect neu'r fenter

Enw'r Prosiect / Menter	
Swyddog Cyfrifol	
Perchennog Asedau Gwybodaeth	
Fersiwn a dyddiad	

Esboniwch beth mae'r prosiect yn ceisio ei gyflawni

Polisi a Phroses Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data

Cwestiynau Sgrinio DPIA

Rhif	Cwestiwn	Na	Bydd	Sylwadau
1.	A fydd y prosiect yn cynnwys prosesu gwybodaeth bersonol a/neu gategoriâu arbennig o ddata personol?			
2.	A fydd y prosiect yn cynnwys defnyddio cyflenwr allanol i brosesu data personol?			
3.	A fydd y prosiect yn cynnwys unrhyw ddata am bobl agored i niwed nad ydynt o bosibl yn gallu cydsynio'n rhwydd neu arfer eu hawliau gwybodaeth, gan gynnwys gwrthwynebu i'r prosesu neu ofyn am fynediad at wybodaeth?			
4.	A fydd y prosiect yn cynnwys trosglwyddo data personol y tu allan i'r DU?			
5.	A fydd y prosiect yn cynnwys casglu data personol newydd am bobl nad ydynt yn casglu data ar eu cyfer eisoes?			
6.	A fydd y wybodaeth yn cael ei rhannu gyda sefydliadau neu bobl nad ydym eisoes yn rhannu'r wybodaeth gyda hwy yn awr?			
7.	A fydd gwybodaeth a gasglwyd yn flaenorol yn cael ei defnyddio at ddiben newydd?			
8.	A fydd y prosiect yn cynnwys defnyddio technegol y gellir ystyried ei bod yn ymwthiol e.e. biometreg, adnabod wyneb?			
9.	A fydd y prosiect yn cynnwys gwneud penderfyniadau a fyddai'n cael effaith arwyddocaol ar unigolyn?			
10.	A fydd y prosiect yn golygu cysylltu ag unigolion mewn ffyrdd a allai fod yn ymwthiol iddynt.			
11.	A fydd y prosiect yn cynnwys casglu data gan rywun ar wahân i'r unigolyn nad ydynt wedi darparu hysbysiad preifatrwydd iddynt?			

10. Atodiad B: Disgrifio'r broses a mapio'r llifoedd gwybodaeth

Cwblhewch y wybodaeth isod ac yna defnyddio'r offer i gynhyrchu siart llif lefel uchel sy'n mapio llif gwybodaeth o'r pwynt caffael i'r cam olaf yn y broses. Nid oes angen i chi ddisgrifio pob cam, dim ond y camau allweddol. Gall yr IGM ddarparu enghreifftiau o siartiau llif eraill a allai fod yn ddefnyddiol i chi.

a) Disgrifio'r cam prosesu

Esboniwch pa ddata sy'n gysylltiedig â hyn. Data pwy sy'n cael ei gasglu a pha ddata yw hwn (personol / categorïau arbennig o ddata personol)?

Pam fod angen y wybodaeth hon arnoch? Esboniwch y sail gyfreithiol dros y prosesu.

Gallai fod yn un neu fwy o'r canlynol:





- a) Mae unigolyn wedi cydsynio neu mae ei angen ar gyfer:
- b) Cyflawni contract
- c) Cydymffurfio â rhwymedigaeth gyfreithiol
- d) Diogelu buddiannau hanfodol rhywun
- e) Cyflawni dyletswyddau statudol [deddfwriaeth y wladwriaeth]
- f) Dilyn dibenion busnes cyfreithlon

Mae yna seiliau eraill dros brosesu categorïau arbennig o ddata personol

Am ba hyd y cedwir y wybodaeth? A yw'n cael ei chofnodi yn yr amserlen cadw cofnodion?

b) Mapio'r Ilifoedd gwybodaeth

Gan ddefnyddio'r offer isod, mapiwch siart llif lefel uchel sy'n disgrifio'r broses o'i dechrau i'w diwedd. Dylech esbonio hefyd lle cafwyd y wybodaeth a gyda phwy y bydd yn cael ei rhannu. Gall yr IGM ddarparu enghreifftiau o siartiau llif eraill a allai fod yn ddefnyddiol i chi.

	Defnyddiwch y symbol hwn ar ddechrau a diwedd eich siart llif.
	Defnyddiwch y symbol hwn i esbonio cam yn y broses.
	Defnyddiwch y symbol hwn pan fydd pwynt penderfynu.
	Defnyddiwch y symbol hwn i esbonio pryd y bydd data'n cael ei fewnbynnu / echdynnu o'r system

11. Atodiad C: Ystyried ymgynghoriad a nodi risgiau

Mae'r adran hon yn canolbwyntio ar weithio gyda rhanddeiliaid allweddol i ystyried a yw'r broses yn angenrheidiol a chymesur. Dylech weithio gyda hwy i nodi risgiau posibl. Efallai y byddant yn nodi eraill nad ydych chi wedi'u nodi. Defnyddiwch yr [asesiad risg](#) isod i gofnodi risgiau, canlyniadau/buddiannau'r risg, lefel y risg a mesurau lliniaru.

Efallai y bydd yn ddefnyddiol i chi gyfeirio at [adran 6](#) Polisi a Phroses DPIA, sy'n cyflwyno cyfres o gwestiynau i chi eu hystyried. Gallai hyn gynorthwyo eich trafodaethau gyda rhanddeiliaid ynglŷn â risgiau posibl a mesurau lliniaru gyda rhanddeiliaid.

a) Ystyried ymgynghori

Pwy yw'r rhanddeiliaid y mae angen i chi ymgynghori â hwy a pham?

b) Nodi a chofnodi risgiau

Defnyddiwch y symbolau fflachbwynt isod i nodi materion preifatrwydd y mae angen mynd i'r afael â hwy ar y siart llif rydych chi wedi'i chreu yn atodiad B. Ar yr asesiad risg ychwanegwch y rhif perthnasol a chofnodi'r risg. Gall yr IGM ddarparu enghreifftiau o lifoedd siart eraill a allai fod yn ddefnyddiol i chi.



Copiïwch a phastiwch y symbol fflach ar eich siart llif. Newidiwch y rhif er mwyn i chi allu cyfeirio at y rhain yn yr asesiad risg.



c) Archwilio canlyniadau risg (neu fuddiannau)

Ar yr [asesiad risg](#) cofnodwch y risgiau rydych wedi'u nodi a beth yw canlyniad (neu fudd) y risg honno. Defnyddiwch yr allwedd i sgorio tebygolrwydd ac effaith y risg.

d) Nodi mesurau i reoli risg

Gallwch gwblhau gweddill yr asesiad risg drwy nodi mesurau a fydd yn diddymu neu'n lleihau'r risgiau rydych wedi'u nodi. Os bydd angen camau gweithredu pellach dylech gofnodi'r rhain gyda pherchennog y cam gweithredu. Efallai na fydd yn bosibl diddymu'r risg yn llwyr ac efallai y bydd angen i chi geisio cytundeb ynghylch y lefel derbyn risg.

e) Cofnodi canlyniadau

Mae angen i'r Perchennog/Perchnogion Asedau Gwybodaeth gymeradwyo'r canlyniadau a'r camau gweithredu sy'n deillio o'r asesiad risg. Defnyddiwch y tabl cymeradwyo i gofnodi'r rhain. Dylai unrhyw gamau gweithredu sy'n deillio o'r asesiad risg fwydo i mewn i unrhyw ddogfennaeth rheoli prosiect.

Polisi a Phroses Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data

Templed Asesiad Risg

[Enw'r prosiect/fenter yma]	Fersiwn:		Dyddiad creu:		Perchennog y Ddogfen:	
Perchennog yr Asedau Gwybodaeth:	[Enw]		Dyddiad cymeradwyo:		Dyddiad yr adolygiad:	

Cyf	Y Risg Beth all ddigwydd a sut gallai ddigwydd	Canlyniad/Budd y digwyddiad yn digwydd	Y Risg Gynhenid			Camau Lliniaru / Cyfleoedd	Sgôr Weddilliol			Camau Pellach Angenrheidiol	Perchenog y Cam gweithredu	A yw'r IAO wedi cytuno ar y Risg? (Do / Na)
			E	T	S		E	T	S			
1												
2.												
3.												
4.												
5.												
6.												
7.												

Allwedd		
I	Effaith	Sgôr 1-3 gyda 3 yn effaith sylweddol ac 1 yr effaith leiaf
L	Tebygolrwydd	Sgôr 1-3 gyda 3 yn debygol iawn ac 1 yn lleiaf tebygol
S	Sgôr	Lluoswch yr effaith a'r tebygolrwydd i gael sgôr

Polisi a Phroses Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data

12. Atodiad D: Cymeradwyo a chofnodi canlyniadau

Mae'n bwysig sicrhau bod uwch reolwyr yn cymeradwyo priodoldeb trin risg. Bydd angen iddynt ystyried pa lefel o risg y gellir ei goddef ac ar ba bwynt mae'r risg yn annerbyniol. Bydd angen ystyried hyfywedd y fenter os na ellir goddef y risg. Gallai fod yn fuddiol ymgynghori â'r ICO i gael cyngor.

Eitem	
Sylwadau awdur yr asesiad risg: [Dylech gynnwys cyfeiriad at integreiddio camau gweithredu i'r prosiect / cynllun gweithredu a chanlyniadau ymgynghoriadau – os oedd unrhyw farnau gwahanol, cofnodwch y rhain isod.]	
Enw'r awdur:	Dyddiad:
Crynodeb o gyngor y Swyddog Diogelu Data (DPO): [Dylech gynnwys cyfeiriad at gydymffurfiaeth, mesurau ac a all y cam prosesu fynd rhagddo.]	
Enw'r DPO:	Dyddiad:
Sylwadau Perchennog yr Asedau Gwybodaeth (IAO): [A yw'r mesurau wedi'u cymeradwyo? A yw'r risgiau gweddilliol wedi'u derbyn? Os yw'r risg weddilliol yn parhau i fod yn uchel, ydych chi wedi ymgynghori â'r ICO cyn bwrw ymlaen? Ydych chi wedi derbyn cyngor y DPO? Os nad ydych, esboniwch eich rhesymau.]	
Enw'r IAO:	Dyddiad:
Bydd y DPIA yn parhau i gael ei adolygu gan:	Enw: Dyddiad cynnal adolygiad: